Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Catrin Davies**

**Caerdydd**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

30/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddau |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 25 Mai 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydw/Naddo |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arwain a Rheoli** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn ffynnu yn y lleoliad hwn am fod ganddynt lais cryf a'u bod yn cael cyfleoedd rhagorol i wneud dewisiadau. Mae ganddynt gydberthnasau gwerth chweil â'i gilydd a gyda'r gwarchodwr plant. Mae'r plant yn ymlacio yn ei chwmni ac yn mwynhau'r amser y maent yn ei dreulio yn ei gofal. Maent yn meithrin eu hannibyniaeth yn dda ac yn mwynhau dysgu drwy chwarae.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, yn ogystal â rheoli rhyngweithiadau cadarnhaol. Mae'n adnabod y plant yn dda iawn ac yn diwallu eu hanghenion ac yn bodloni eu dewisiadau unigol yn gyson. Mae'n ymarferydd gwybodus ac effeithiol.

Mae cartref y gwarchodwr plant yn addas i blant ac mewn cyflwr da. Mae'n darparu amrywiaeth o adnoddau a chyfleusterau i alluogi'r plant i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gwahanol. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd dan do ac awyr agored yn ystyried diddordebau'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r lleoliad yn effeithiol, yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a rheoliadau. Mae'n frwdfrydig ac yn ymrwymedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol iawn â'r rhieni.

| Llesiant | Rhagorol |
|---|---|

Mae gan y plant lais cryf yn y gwasanaeth. Mae'r gwarchodwr plant yn parchu eu safbwyntiau a'u dymuniadau'n fawr, a gwelsom fod y plant yn hapus iawn i fynd ati ac i'w chynnwys yn eu chwarae. Rhoddir llawer o gyfleoedd i'r plant wneud dewisiadau a chânt eu cefnogi pan fo angen. Er enghraifft, gwelsom y plant yn mynd ati'n hapus i ddewis tynnu llun neu chwarae â ffigurau antur, ceir neu offer pren. Gofynnir i'r plant yn rheolaidd am yr hyn yr hoffent chwarae ag ef yn ystod y sesiwn, sy'n cynnal eu diddordeb yn dda.

Mae'r plant wedi setlo ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn. Maent yn chwarae'n hapus yn yr ystafell chwarae neu yn yr ardd, gan ddewis eu teganau eu hunain o'r dewis sydd ar gael. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r arferion, sy'n gwneud iddynt deimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel. Maent yn cyfathrebu'n hyderus am fod y gwarchodwr plant yn ystyried eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn llawn. Caiff safbwyntiau a diddordebau'r plant eu gwerthfawrogi a gweithredir arnynt. Er enghraifft, gwelsom y plant yn dewis chwarae yn yr awyr agored pan ofynnodd y gwarchodwr plant a hoffent wneud hyn.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn rhagorol ac maent yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd. Maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant a gyda'i gilydd. Er enghraifft, gwelsom y plant iau yn cymryd rhan yn frwdrydig mewn gemau yr oedd y plant hŷn wedi eu trefnu ar eu cyfer. Gwelsom hefyd blentyn iau yn ymateb yn gadarnhaol wrth i'r plant hŷn ganu iddo pan oedd yn teimlo'n drist.

Mae'r plant yn canolbwyntio'n dda, gan ddangos diddordeb yn yr hyn y maent wedi dewis ei wneud am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, gwelsom un plentyn yn dyfalbarhau â dringo a mynd i lawr y llithren yn yr ardd. Roedd yn gwenu ac yn falch o'i gyflawniadau wrth iddo feistroli'r dasg. Mae'r plant yn ymateb yn dda iawn i gymorth ac anogaeth gan y gwarchodwr plant.

Mae'r plant yn gyfarwydd â'r arferion ac yn dangos lefel uchel o annibyniaeth. Er enghraifft, mae'r plant yn gwisgo eu hesgidiau eu hunain cyn mynd allan ac yn newid i'w gwisg ysgol yn annibynnol. Maent yn symud yn rhydd yn yr ardal dan do, gan ddefnyddio'r adnoddau'n annibynnol a dilyn eu diddordebau eu hunain. Gwnaethant sgwrsio'n hapus â ni, gan fynegi eu barn am y teganau y maent yn hoffi chwarae â nhw. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn mwynhau eu hamser yn fawr yn y lleoliad.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau priodol i gadw'r plant yn ddiogel. Mae ganddi bolisi diogelu cynhwysfawr ar waith ac mae ei dealltwriaeth o ddiogelu yn dda. Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau'r ffurflenni damweiniau yn briodol a chaiff y rhain eu llofnodi a'u dyddio gan y rhieni i ddangos bod y wybodaeth wedi'i rhannu. Maent yn meddu ar gymwysterau cymorth cyntaf a hylendid bwyd cyfredol. Mae'r gwarchodwr plant yn paratoi bwyd mewn ffordd hylan ac yn annog y plant i ddilyn arferion hylendid da. Er enghraifft, mae'r gwarchodwr plant yn gwneud yn siŵr bod y plant yn golchi eu dwylo ar adegau priodol, er enghraifft cyn cinio ac ar ôl defnyddio'r toiled. Mae'r gwarchodwr plant wedi ennill gwobr am fyrbrydau iach ac mae wedi'i chofrestru â'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae'n darparu prydau a byrbrydau cytbwys i'r plant. Mae trefniadau'r gwarchodwr plant ar gyfer oruchwylio a gofalu am y plant yn dda.

Mae'r gwarchodwr plant yn ofalgar, yn frwdfrydig ac yn ymrwymedig i ddiwallu anghenion unigol y plant. Mae'n sensitif i anghenion y plant, yn ofalgar ac yn garedig. Mae'r gwarchodwr plant yn cofleidio'r plant pan fydd angen er mwyn rhoi cysur a thawelwch meddwl. Mae'n deall anghenion y plant ac mae ganddi bolisi ymddygiad addas i gefnogi hyn. Clywsom y gwarchodwr plant yn annog ac yn canmol y plant yn aml am eu hymdrechion ac am ryngweithio'n gadarnhaol. Mae'n helpu'r plant i wneud dewisiadau am ble yr hoffent chwarae a beth yr hoffent chwarae ag ef, sy'n helpu i hybu eu hunan-barch a'u hunanhyder. Mae'r gwarchodwr plant yn gweithredu mewn modd cyson ac yn atgyfnerthu ei phenderfyniadau mewn ffordd gadarnhaol. Mae'n bwyllog, yn amyneddgar ac yn fodel rôl ardderchog.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ac ymweliadau ysgogol, gan gynnwys sesiynau grŵp chwarae ac ymweliadau â'r llyfrgell leol. Mae wedi meithrin cydberthnasau ardderchog â'r plant ac mae'n ymwybodol iawn o'u datblygiad unigol. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio cofnodion datblygiadol i gofnodi cynnydd. Mae ganddi ddealltwriaeth dda iawn o anghenion pob plentyn sy'n mynychu'r gwasanaeth. Mae gan y gwarchodwr plant ymwybyddiaeth dda o God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru ac mae wedi bod ar gyrsiau a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol i ddatblygu ei gwybodaeth a'i dealltwriaeth ymhellach. Mae'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn effeithiol iawn.

| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
|---|---|

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn ddiogel yn y cartref ac mae'n ymwybodol o'i chyfrifoldebau mewn perthynas â'u diogelwch. Mae'r safle yn ddiogel, mae'r drws ffrynt yn cael ei gloi ac mae ymwelwyr yn llofnodi wrth gyrraedd a gadael y lleoliad. Mae'r plant yn defnyddio ystafell fyw a chegin y cartref. Mae'r plant hŷn yn defnyddio'r toiled i fyny'r grisiau mewn ystafell ymolchi yn annibynnol. Mae'r gwarchodwr plant yn mynd gyda'r plant iau i ddefnyddio'r toiled. Mae'r plant yn gwneud defnydd da o ardd hygyrch fawr. Mae asesiadau risg ar waith ond nid ydynt yn cael eu monitro a'u hadolygu'n effeithiol. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau diogelwch tân drwy gynnal ymarferion rheolaidd ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng. Mae ganddi yswiriant a gwiriadau diogelwch priodol ar gyfer y cartref ac mae gwiriad diogelwch nwy blynyddol wedi'i gynnal. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân drwy ddilyn gweithdrefnau hylendid da a glanhau'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw wedi cwblhau archwiliad rheoli heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r eiddo yn addas, yn groesawgar ac wedi'i addurno'n hyfryd dan do, a cheir ystafell chwarae ddynodedig ar gyfer y plant sy'n derbyn gofal. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig cyfleoedd da i'r plant chwarae yn yr awyr agored ym mhob tywydd mewn gardd gaeedig sy'n cynnwys ardal batio gysgodol. Mae'n hyrwyddo ymdeimlad o berthyn y plant yn y lleoliad drwy arddangos lluniau ohonynt. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu byrddau a chadeiriau isel yn yr ystafell chwarae i'r plant iau fwyta eu bwyd, ac yn rhoi'r cyfle i'r plant hŷn ddefnyddio'r ardal fwyta yn y gegin. Mae'n darparu stepiau wrth sinc y gegin er mwyn annog y plant iau i olchi eu dwylo'n annibynnol.

Mae'r holl adnoddau sydd ar gael i'r plant yn addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn drefnus ac mewn cyflwr da. Mae'n cadw'r teganau a'r adnoddau ar lefel isel er mwyn i'r plant allu cael gafael arnynt. Maent wedi'u trefnu mewn bocsys ac mae'r plant yn gyfarwydd â ble maent wedi'u storio. Gall y plant hefyd ddefnyddio adnoddau ychwanegol yn yr awyr agored. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod y plant yn treulio'r mwyafrif o'u hamser yn yr ardd yn ystod misoedd yr haf. Mae hefyd yn mynd â'r plant i barciau ac atyniadau lleol yn rheolaidd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol iawn ac yn rheoli'r lleoliad yn effeithiol. Mae ganddi ddatganiad o ddiben, sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r datganiad o ddiben yn esbonio ei lleoliad gwarchod plant ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Mae contractau a chaniatadau ar waith i sicrhau y caiff anghenion a dewisiadau'r plant eu diwallu a'u bodloni. Mae gan y gwarchodwr plant yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol ac mae dogfennau ei char yn ddilys.

Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal sy'n ystyried safbwyntiau'r plant a'r rhieni. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn cynnwys y blaenoriaethau ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Drwy drafod â'r gwarchodwr plant, gwelsom ei bod yn agored i adborth ac yn croesawu'r angen i wella'n barhaus.

Mae'r gwarchodwr plant yn meddu ar gymwysterau priodol, gan gynnwys tystysgrif Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant lefel 3 a Diploma lefel 3 mewn Gofal Plant yn y Cartref. Mae wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol er mwyn datblygu ei sgiliau a'i dealltwriaeth ymhellach mewn meysydd fel Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth. Mae hyn yn dangos ei hymrwymiad i wella ei hymarfer a chefnogi ei datblygiad proffesiynol ei hun. Mae gan y gwarchodwr plant dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i gadarnhau ei haddasrwydd fel gwarchodwr plant cofrestredig. Mae'n sicrhau bod holl wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer aelodau'r cartref sydd dros 16 oed.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y cydberthnasau â'r rhieni yn hynod effeithiol. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn hapus iawn gyda'r gofal y mae'r gwarchodwr plant yn ei ddarparu. Gwnaethant ddweud ei bod bob amser yn hawdd mynd ati ac yn gyfeillgar, a bod ganddi ddiddordeb gwirioneddol yn eu plant. Dywedodd un rhiant wrthym "We are thrilled with the service we receive". Dywedodd rhiant arall wrthym "She gives the children excellent care." Mae'r gwarchodwr plant yn cadw dyddiadur dyddiol ar gyfer y plant ieuengaf ac yn rhannu gwybodaeth yn ystod y dydd drwy ap negeseua preifat. Mae'n adrodd yn ôl i'r rhieni am anghenion y plant ar ddiwedd y sesiwn gwarchod plant ddyddiol. Pan fydd y plant yn gadael y gwasanaeth, mae'r gwarchodwr plant yn rhoi llyfr atgofion iddynt sy'n cynnwys lluniau i gofio eu hamser gyda hi.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safonol | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau y caiff asesiadau risg eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru pan fydd unrhyw newidiadau i'r safle neu anghenion y plant. |
| Safon 18 - Sicrhau ansawdd | Sicrhau bod yr adolygiad o Ansawdd y Gofal yn nodi meysydd i'w gwella. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Cwblhau Archwiliad Rheoli Heintiau gan ddefnyddio adnodd archwilio Iechyd Cyhoeddus Cymru i lywio'r gweithdrefnau hylendid. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/06/2024